



Ordnance
Survey®

Arolwg
Ordnans®

Cynllun Iaith Gymraeg



Cynnwys

Arolwg Ordnans Cynllun Iaith Gymraeg: 7 mis Tachwedd 2006

Adrann	Tudalen
1 Cyflwyniad	2
2 Cefndir y sefydliad	2
3 Cyflwyno gwasanaeth a chynnyrch	2
3.1 Polisiau, deddfwriaeth a mentrau	2
3.2 Darparu gwasanaethau a chynhyrchion	2
3.3 Gwasanaethau yr ymgymerir â hwy ar ein rhan gan drydydd partïon	2
3.4 Safonau ansawdd	3
4 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	3
4.1 Gohebiaeth	3
4.2 Cyfathrebu dros y ffôn	3
4.3 Cyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru	3
4.4 Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru	3
5 Ein hwyneb cyhoeddus	3
5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion	3
5.2 Cyhoeddiadau ategol	4
5.3 Gwefannau	4
5.4 Ffurflenni contractau a deunydd eglurhaol cysylltiedig	4
5.5 Hunaniaeth gorfforaethol	5
5.6 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff	5
5.7 Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau	5
6 Rhoi'r cynllun ar waith	5
6.1 Staffio	5
6.2 Recriwtio	5
6.3 Hyfforddiant iaith	6
6.4 Hyfforddiant galwedigaethol	6
6.5 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	6
6.6 Gweithio mewn partneriaeth	6
6.7 Trefniadau mewnol	6
6.8 Monitro	7
6.9 Adolygu a diwygio'r cynllun	7
6.10 Cwynion ac awgrymiadau i wella	7

1 Cyflwyniad

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Dyma gynllun yr Arolwg Ordnans.

Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny.

Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term cyhoedd yn golygu unigolion, pobl gyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr a phobl eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o dan ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn swydd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bobl gyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair cyhoedd pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Mae gwybodaeth bellach am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk).

Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 21 y Ddeddf – ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth yn weithredol ar xxxx.

2 Cefndir y sefydliad

Yr Arolwg Ordnans yw asiantaeth fapio genedlaethol Prydain Fawr, yn cofnodi ac yn darparu cofnod swyddogol o nodweddion yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae ein gweithgareddau'n canolbwyntio ar greu a chynnal data daearyddol sy'n cynnwys data topograffig, y rhwydwaith ffyrdd, cyfeiriadau ac awyrluniau.

Mae'r Arolwg Ordnans yn gweithredu fel Cronfa Fasnachu, sy'n golygu ein bod yn cynhyrchu referniw o'n gweithgareddau sy'n ddigonol i adfer ein holl gostau gweithredu a chynhyrchu elw bach ar gyfalaf a roddir ar waith.

Mae lleoliad mwyafrif helaeth ein gweithgareddau a'n staff yn ein pencadlys yn Southampton. Yn ogystal â hyn mae gennym hefyd rwydwaith o swyddfeydd maes ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Dyma lle mae ein trefsurwyr maes, sy'n diweddarau ein cronfeydd data o ddata a gesglir yn y maes, yn gweithio ohonynt. Nid yw'r swyddfeydd hyn yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth amdanom ni ar ein gwefan, www.ordnancesurvey.co.uk/cymraeg, neu o'n Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid (mae'r manylion cysylltu ar ddiwedd y ddogfen hon).

3 Cyflwyno gwasanaeth a chynnyrch

3.1 Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau

Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a byddant, bryd bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd.

Pan fyddwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu neu weithredu polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu deddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

3.2 Darparu gwasanaethau a chynhyrchion

Byddwn yn sicrhau bod cymaint â phosibl o'n gwasanaethau ar gael yn Gymraeg – a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

Mae'r ymrwymadau a wneir yn yr adran hon yn berthnasol i wasanaethau a chynhyrchion sy'n ymwneud â marchnadoedd defnyddwyr ac addysg, i Gymru. Nid yw, yn gyffredinol, yn berthnasol i ddeunydd sy'n ymwneud â chynhyrchion busnes i fusnes.

Bydd ein cynhyrchion yn defnyddio cynnwys a chyflwyniad dwyieithog yn briodol, ac mae ein mapiau ar raddfa fach ar hyn o bryd yn adlewyrchu agwedd fwyaf gweledol ymrwymiad yr Arolwg Ordnans i'n cynllun iaith Gymraeg. Mae ein mapiau OS Landranger yn dangos cyfran uchel o enwau dwyieithog yng Nghymru, ac mae ganddynt fersiwn llawn o'r allwedd, clawr a nodiadau dwyieithog ar y mapiau hynny y mae pob rhan ohonynt, neu ran yn unig, yn cwmpasu Cymru.

3.3 Gwasanaethau yr ymgymerir â hwy ar ein rhan gan drydydd partïon

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fydd y cytundebau

neu'r trefniadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu gosod allan ar contract, caniatáu trwyddedau a rhoi caniatadau eraill.

3.4 Safonau ansawdd

Bydd cynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

4 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

Bydd ein harfer safonol fel a ganlyn:

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamserau targed ar gyfer ateb yr un fath â'r amserau targed ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg.

Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr at sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob derbynnydd ei chael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Bydd deunyddiau fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

Bydd deunyddiau fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth dros yr e-bost yn ogystal â gohebiaeth bapur.

Caiff pob copi caled o ohebiaeth Gymraeg a anfonir ei lofnodi.

Byddwn yn cofnodi dewis iaith y rhai sy'n dewis gohebu â ni yn Gymraeg.

Byddwn yn defnyddio system sgorio y bydd y Bwrdd yn cytuno arni, i nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyr na fydd angen

eu cyhoeddi yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fydd yr ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn).

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Byddwn yn defnyddio llinell gymorth i roi gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth i'r cyhoedd, a bydd hon yn darparu cyfleuster Cymraeg. Llinell ar wahân yw hon a hysbysebwr ochr yn ochr â'r gwasanaethau Saesneg.

4.3 Cyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru

Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig iddynt barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r mater drwy ohebu yn Gymraeg.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio offer fideo-gynadledda ac offer tebyg.

4.4 Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn cynnal arolygon ac ymgynghoriadau cyhoeddus, ein harfer safonol fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Pryd bynnag y bo'n ymarferol, gofynnir i ymatebwyr a hoffent ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg.

5 Ein hwyneb cyhoeddus

5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion

Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân,

bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Dim ond yn Gymraeg y cyhoeddir hysbysebion mewn cyhoeddiadau Gymraeg.

Cyhoeddir hysbysebion teledu, sinema a radio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglennu Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir ar Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

Ein harfer safonol fydd osgoi defnyddio is-deitlau Cymraeg, neu drosleisio hysbysebion yn Gymraeg.

Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

5.2 Cyhoeddiadau ategol

Ein harfer safonol fydd cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

Os oes yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a'n harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio y bydd y Bwrdd yn cytuno arni, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Os na fydd y dogfennau ar gael am ddim, ni ddylai pris dogfen ddwyieithog fod yn fwy na phris cyhoeddiad un iaith – a bydd pris dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd fydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom, neu fel arall.

5.3 Gwefannau

Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn cynhyrchu ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i wefan Gymraeg benodol sy'n cynnwys gwybodaeth lefel uchel i fusnesau a defnyddwyr, a gwybodaeth gorfforaethol. Lle bo'n briodol, cynhyrchir adrannau penodol o'r wefan hefyd yn Gymraeg, neu byddant yn cael eu cyfieithu, ac fe fyddant yn cynnwys URLau Cymraeg a chysylltau i brif wefan yr Arolwg Ordians ac oddi yno. Pryd bynnag y byddwn yn gosod cyhoeddiadau Saesneg ar ein prif wefan, byddwn hefyd yn gosod fersiynau Cymraeg ar yr un pryd, os ydynt ar gael.

Wrth ddylunio neu ailddatblygu gwefannau Cymraeg, byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio gwefannau.

5.4 Ffurflenni contractau a deunydd eglurhaol cysylltiedig

Ein harfer safonol fydd sicrhau y bydd yr holl ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau. Yn achos gweithgaredd busnes i fusnes yn Saesneg yn unig y byddwn yn eu cyhoeddi fel arfer, ond byddwn yn eu cyfieithu ar gais os bydd yn ymddangos bod angen busnes am hyn.

Os oes yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd – a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio y bydd y Bwrdd yn cytuno arni, i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi ffurflenni fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Pan fyddwn ni yn cofnodi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.

Pan fyddwn ni yn cofnodi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynyddion dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg un unig.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

5.5 Hunaniaeth gorfforaethol

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu – a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cardiau mynediad, tocynnau, gwahoddiadau a cherbydau.

5.6 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfrwng tebyg) a ddosberthir yng Nghymru yn bennaf neu'n gyfan gwbl, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un a chânt eu cyhoeddi fel un fersiwn dwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

O ran y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.

Gellir cyhoeddi hysbysiadau recriwtio sy'n ymddangos mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg a ddosberthir ledled y DU yn Saesneg, oni bai ei bod yn hanfodol i ddeiliad y swydd siarad Cymraeg, ac os hynny, gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff sy'n ymddangos unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

5.7 Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

Cyhoeddir datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg lle mae terfynau amser yn caniatáu hynny – neu yn ôl dewis iaith y sefydliad cyfryngol neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.

Lle bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

Pan fyddwn yn gosod y datganiadau hyn i'r wasg ar ein gwefan, ein harfer safonol fydd eu gosod yn Gymraeg ac yn Saesneg.

6 Rhoi'r cynllun ar waith

6.1 Staffio

Nid yw ein swyddfeydd Arolygu maes yng Nghymru ar agor i'r cyhoedd. Mae yna Swyddfa gwerthiannau heb staff yng Nghaerdydd, sy'n rhannu'r adeilad â chwmni arall, a dim ond o bryd i'w gilydd y bydd hon ar agor i'r cyhoedd ar gyfer cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw â'n staff gwerthu. Felly byddwn yn dilyn y gweithdrefnau canlynol:

Bydd tirfesurwyr yn darparu ymateb dwyieithog cyfyngedig, yn egluro, yn Gymraeg, nad ydynt yn rhugl eu Cymraeg. Bydd tirfesurydd sy'n siarad Cymraeg yn ymweld â safle'r arolwg os gofynnir am hyn.

Mae pob un o'n tirfesurwyr yn cario cardiau awdurdod sy'n dangos ffotograff portread a datganiad o awdurdod. Maent hefyd yn cario cerdyn mynediad sy'n egluro eu bod yn gweithredu ar ran Llywodraeth EM a bydd angen iddynt gael mynediad i eiddo preifat. Byddwn yn darparu fersiynau dwyieithog o'r eitemau hyn i'n tirfesurwyr sy'n gweithredu yng Nghymru.

Byddwn yn nodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithfan neu dîm, neu fe all fod ynghlwm wrth swydd benodol.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau i ganfod nifer y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, yn ogystal â lefel eu gallu, a'u lleoliad (yn cynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn nodi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

Caiff canlyniadau'r ddau ymarferiad hyn eu cymharu er mwyn nodi gweithfannau lle mae prinder staff sy'n gallu siarad Cymraeg.

Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

6.2 Recriwtio

Pan fyddwn yn recriwtio staff bydd y wybodaeth a gesglir wrth ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir o dan Staffio uchod yn ein harwain.

Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol bod ymgeisydd yn siarad Cymraeg yn rhugl, nodir hyn yn adran cymwyseddau'r swydd ac mewn hysbysebion.

Pan na fydd ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, anogir y sawl a benodir i ddysgu Cymraeg.

Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ond lle gellir caniatáu amser iddo ddysgu'r iaith. Mewn achosion o'r fath, bydd y gallu i ddysgu'r iaith hyd at y lefel benodol o fedrusrwydd, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, yn un o amodau ei gyflogi.

Pan na fydd ymgeiswyr addas sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol (neu os penodir ymgeisydd na all siarad Cymraeg ond sy'n dysgu Cymraeg), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro lle gellir darparu gwasanaeth Cymraeg (er enghraifft, drwy ddefnyddio staff sy'n gallu siarad Cymraeg o rywle arall yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Bydd pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi lle ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn ddymunol neu'n hanfodol.

6.3 Hyfforddiant iaith

Caiff ein staff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru eu hannog i ddysgu Cymraeg neu i wella eu Cymraeg – a byddwn yn cefnogi'r rhai sydd am wneud hynny.

Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

6.4 Hyfforddiant galwedigaethol

Byddwn yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn cyflwyno mesurau i ddiwallu angen o'r fath.

6.5 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei ddiwallu wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Pryd bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

presennol er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

6.6 Gweithio mewn partneriaeth

Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn ni yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio ag ef.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r cynllun hwn.

Dim ond at bartneriaethau sy'n delio â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'r uchod yn cyfeirio.

6.7 Trefniadau mewnol

Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad. Y rheolwyr fydd yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith sydd ei angen i weithredu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Byddwn yn paratoi, ac yn diweddarau yn barhaus cynllun gweithredu manwl y bydd y Bwrdd yn cytuno arno, gan nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cynllun hwn ymhlith ein staff, a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn man amlwg.

Byddwn yn cynhyrchu cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, ar gyfer ein staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i roi'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn ar waith.

Caiff cyfarwyddiadau desg presennol, neu ganllawiau tebyg a ddefnyddir gan ein staff, eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn.

Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi ar gyfer ein staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r

cynllun hwn – ac er mwyn esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr neu ladmeryddion cymwys y byddwn yn eu defnyddio i helpu gyda'r gwaith o weithredu'r cynllun hwn.

Fe fyddwn yn ymgymryd ag unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn delio'n benodol ag ef, mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforir yn y cynllun hwn.

6.8 Monitro

Byddwn yn monitro ein cynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn yn erbyn targedau a nodir yn y cynllun gweithredu a ddaw gyda'r cynllun hwn.

Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol.

Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar eu cais, gan amlinellu'r cynnydd o ran gweithredu'r cynllun hwn.

6.9 Adolygu a diwygio'r cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'i roi ar waith.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau yr ydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny danynt, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.10 Cwynion ac awgrymiadau i wella

Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau i'w wella, at y Cyfarwyddwr Strategaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Arolwg Ordnans
Romsey Road
SOUTHAMPTON
SO16 4GU

Ffôn: 08456 05 05 04 (Llinell gymorth Gymraeg)
Ffôn: 08456 05 05 05 (Llinell gymorth Saesneg)
Ebost: customerservices@ordnancesurvey.co.uk
Gwefan: www.ordnancesurvey.co.uk/cymraeg

Mae Ordnance Survey, Symbol OS, Arolwg Ordnans, Landranger ac OS yn farciau masnachu cofrestredig yr Arolwg Ordnans, asiantaeth mapiau cenedlaethol Prydain Fawr.